**<u>Lwfans Gofal Plant</u> -**
**<u>Gwybodaeth a Nodiadau Canllawiau ar gyfer cwblhau eich cais o fis Ebrill 2023</u>**

Gall myfyrwyr a fydd yn gwneud cais am Fwrsariaeth GIG hefyd wneud cais am gymorth ariannol pellach os oes rhaid iddynt dalu am ofal plant cofrestredig tra byddant yn mynychu eu cwrs. Y bwriad yw y bydd y lwfans yn ddull ychwanegol o'ch cynorthwyo â chostau gofal plant, ond ni fydd yn talu'ch costau i gyd. Cwblhewch adran Lwfans Gofal Plant eich cais am Fwrsariaeth a rhowch dystiolaeth yn ôl y gofyn. Mae hyn yn rhan o'r broses ymgeisio ac nid oes angen llenwi ffurflenni ffisegol. Mae'r Fwrsariaeth a'r lwfansau ychwanegol i gyd yn dibynnu ar brawf modd.

Bydd angen i chi uwchlwytho sgrinlun i'ch cyfrif lle gofynnir i chi ddangos bod eich darparwr wedi'i gofrestru ag **<u>Arolygiaeth Gofal Cymru</u> Hafan | Arolygiaeth Gofal Cymru** neu **<u>Ofsted</u>** ar gyfer Lloegr Dod o hyd i adroddiad arolygu Ofsted.

- Dim ond os ydych wedi gwneud cais am Lwfans Dibynnydd trwy eich cyfrif Bwrsariaeth ar-lein y gallwch wneud cais am Lwfans Gofal Plant.

- Dim ond am nifer yr wythnosau ar y cwrs y gallwch chi gael eich ariannu, sy'n cael ei gadarnhau i ni gan eich Prifysgol. Gallwn ond ad-dalu'r uchafswm i chi ar gyfer 1 plentyn o £128.78 yr wythnos neu'r uchafswm ar gyfer 2 blentyn neu fwy o £209.95.
  Fel arall, bydd yn 85% o'r gost gwirioneddol o dan yr uchafsymiau hynny.

  Er enghraifft, pe bai eich costau ar gyfer 1 plentyn yn £175 yr wythnos, byddech yn cael yr uchafswm o £128.78 yn cael ei ad-dalu, os oedd y costau'n £120 yr wythnos, yna byddech yn cael ad-daliad o 85% o'r swm hwnnw.

  Os am 2 neu fwy o blant a bod y costau'n £300 yr wythnos, byddech chi'n cael yr uchafswm o £209.95 wedi'i ad-dalu, pe bai'r costau'n £200 yr wythnos yna byddech chi'n cael ad-daliad o 85% o'r swm hwnnw.

- Sylwch, er mwyn gwneud cais am y Lwfans Dibynnydd ar gyfer eich plentyn/plant a bod gennych <u>briod/partner</u> rhaid i chi ddewis y byddant yn ddibynnol yn ariannol yn gyfan gwbl neu'n bennaf arnoch chi.

**Lwfans Gofal Plant a goblygiadau Incwm Asesadwy**

Mae'r Lwfans Gofal Plant yn lwfans ychwanegol ac mae'n rhan o'r un broses ymgeisio. Mae'r Fwrsariaeth a'i lwfansau ychwanegol I GYD yn seiliedig ar brawf modd. Ar gyfer cyrsiau Rhan-amser mae incwm y myfyriwr hefyd yn cael ei ystyried ond nid os yw'n Llawn amser.

Os ydych yn rhan o gwpl, bydd y system ymgeisio yn pennu a oes unrhyw incwm y mae angen ei ystyried wrth asesu'r Lwfans Gofal Plant, sef incwm y gellir ei asesu. Dyma'r ffigur sy'n weddill ar ôl tynnu pob diystyriad posib megis Treth, Yswiriant Gwladol, Yswiriant Bywyd, Morgais neu Rent. Rydym hefyd yn tynnu'r diystyriad o £1000 ar gyfer pob dibynnydd.

Bydd unrhyw incwm asesadwy sy'n weddill yn cael ei dynnu o unrhyw ddyfarniad Lwfans Gofal Plant posib. Weithiau gall y ffigwr sydd ar ôl fod yn uwch na chyfanswm y costau amcangyfrifedig a gyflwynwyd ar y cais, mae hyn yn golygu na fyddai gennych hawl i unrhyw gymorth gyda chostau gofal plant gan fod ffigwr yr incwm y gellir ei asesu yn dileu unrhyw ddyfarniad posibl. Os yw'r ffigur sy'n weddill yn is na'r dyfarniad posibl, byddech chi'n derbyn y balans, felly pe bai'ch costau amcangyfrifedig er enghraifft yn £5,000, llai 85% £4,250, yr incwm asesadwy oedd £3,000, byddech chi'n derbyn y £1,250 (gwahaniaeth rhwng y 2 swm) a fyddai'n cael ei dalu mewn rhandaliadau dros gyfnod y dyfarniad.

Gweler yr enghraifft isod am gwpl gyda 2 o blant

| | |
|---|---|
| £30000 | Incwm Gros |
| £ -7500 | Llai Treth/Yswiriant Gwladol |
| £22500 | Incwm Net |
| £ -6500 | Llai Morgais/Rhent |
| £ -200 | Yswiriant Bywyd |
| £15800 | Yn gadael |
| £ -3000 | Diystyrir £1000 am bob dibynnydd (1 oedolyn, 2 blentyn) |
| £12800 | Balans ar ôl |
| £ -4750 | Swm y Lwfans Dibynyddion posib, dim yn daladwy oherwydd balans yr incwm yn weddill o £12800 |
| £ 4250 | Cyfanswm y costau amcangyfrifedig |
| £-8050 | Cyfanswm sy'n asesadwy |
| £-3800 | Yn gadael ffigur negyddol, i bob pwrpas dim dyfarniad |

Felly, pe bai'r amcangyfrif o'r costau yn £5,000 llai 85%, byddai'r dyfarniad yn £4,250. Gan mai swm yr incwm asesadwy yw £8,050, ni fyddai unrhyw Lwfans Gofal Plant yn cael ei ddyfarnu gan fod yr £8,050 yn diddymu'r costau amcangyfrifedig o £4,250.

**Newidiadau i'ch Darparwr/Darparwyr Gofal Plant neu Anghenion Gofal Plant**

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni cyn gynted ag y bo modd os bydd eich anghenion gofal plant neu ddarparwr gofal plant yn newid er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn y Lwfans Gofal Plant cywir. Os na wnewch hyn, gallech gael swm anghywir a bydd yn rhaid ad-dalu unrhyw ordaliadau.

Os, ar ôl gwneud cais am Lwfans Gofal Plant, byddwch:

- yn gadael neu'n gohirio astudiaethau
- yn newid eich Darparwr Gofal Plant
- yn dymuno ychwanegu darparwr gofal plant ychwanegol, neu
- angen ychwanegu plentyn arall neu blant eraill at eich Lwfans Gofal Plant nad ydych wedi hawlio amdanynt o'r blaen

Dylech roi gwybod i ni drwy fewngofnodi i'ch cyfrif a diwygio cost gyfartalog gofal plant i adlewyrchu'r newid. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw ac yn ailgyflwyno'r cais fel ei fod yn mynd i mewn i'r ciw i'w ailasesu.

**Twyll**

Os byddwch yn gwrthod datgelu gwybodaeth neu'n darparu gwybodaeth ffug yn fwriadol er mwyn derbyn mwy o arian bwrsariaeth nag y mae gennych yr hawl i'w dderbyn, byddwch yn cyflawni twyll. Os, ar unrhyw adeg, byddwn yn amau bod hawliad yn dwyllodrus, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud at y Gwasanaeth Atal Twyll ar gyfer ymchwiliad pellach.

Os ydych chi'n amau bod rhywun yn hawlio costau gofal plant yn dwyllodrus, gallwch ffonio **Llinell Rhadffôn Adrodd am Dwyll a Llygredd y GIG (FCRL) ar 0800 028 40 60** i drosglwyddo gwybodaeth yn ddienw. Bydd pob galwad yn gyfrinachol a bydd staff sydd wedi cael hyfforddiant proffesiynol yn ymchwilio i'r mater.

Os caiff ei farnu bod unigolyn yn euog o dwyll yn dilyn ymchwiliad, gall yr unigolyn hwnnw fod yn agored i gael ei erlyn a/neu fod yn destun camau disgyblu.

***Er enghraifft:-***

*Fe wnaeth nyrs dan hyfforddiant gynyddu cost ei gofal plant er mwyn derbyn swm uwch am ei Lwfans Gofal Plant. Yn ddiweddarach, darganfu archwiliad yr anghysondeb a chyfeiriwyd y mater at Wasanaeth Atal Twyll y GIG i ymchwilio i'r mater.*
*Yn ddiweddarach, cyhuddwyd hi o dwyll trwy gynrychiolaeth ffug, yn groes i Adran 2 Deddf Twyll 2006. Llediodd yn euog a gorfu iddi ymgymryd â 120 awr o waith di-dâl ac ad-dalu'r swm o £4,213.23.*

Pwrpas y nodiadau hyn yw eich helpu wrth ichi lenwi'ch Cais am Lwfans Gofal Plant GIG Cymru ac fe'u bwriedir fel canllaw ac er gwybodaeth yn unig. Bydd pob dyfarniad yn cael ei wneud yn unol â Chynllun Bwrsariaeth GIG Cymru.

**Nodyn 1:**

Os ydych yn sengl, wedi ysgaru, wedi gwahanu neu'n weddw bydd angen i chi ddarparu/uwchlwytho'r canlynol i'ch cais:

- Tystiolaeth o Fudd-dal Plant

- Hysbysiad Dyfarnu Credydau Treth diweddaraf (yn llawn 6-8 tudalen) a dderbyniwyd gan Gyllid a Thollau EF (CThEF) sy'n cadarnhau eich bod yn hawlio Credydau Treth fel unigolyn (gweler hefyd nodyn 6) a/neu gopi LLAWN o'ch Datganiad Credyd Cynhwysol sydd yn dangos yr holl bobl sydd wedi'u cynnwys ar y cais a phopeth yr ydych wedi cael eich asesu ar ei gyfer.

- Eich Eithriad y Dreth Gyngor a dderbyniwyd gan eich **Cyngor Lleol** sy'n cadarnhau, fel myfyriwr llawnamser, bod eich eiddo wedi'i eithrio rhag y Dreth Gyngor. Fodd bynnag, os ydych yn fyfyriwr Blwyddyn 1af byddwn yn ei dderbyn os yw eich bil yn dangos Gostyngiad Person Sengl. Pan fyddwch yn dechrau eich cwrs, bydd eich prifysgol yn rhoi tystysgrif eithrio i chi; dylid anfon y dystysgrif hon at eich Cyngor Lleol. Bydd y Cyngor Lleol wedyn yn rhoi datganiad diwygiedig i chi, fydd yn cadarnhau eich bod wedi'ch eithrio rhag gwneud taliadau y Dreth Gyngor. Bydd angen dangos copi o hwn ar gyfer y blynyddoedd academaidd dilynol. Bydd angen y dystysgrif eithrio ar gyfer blynyddoedd dilynol. Nid yw'r llythyr gan eich Prifysgol yn dderbyniol, rydym angen y bil gwirioneddol gan y Cyngor.

- Bydd angen i fyfyrwyr sy'n byw gyda rhieni ddarparu tystiolaeth ategol, er enghraifft, datganiad Treth y Cyngor diweddaraf eu rhiant sy'n cadarnhau cyfeiriad yr ymgeisydd.

**Nodyn 2:**

Taliadau gan y Llywodraeth yw Credydau Treth/Credyd Cynhwysol. Os ydych yn gyfrifol am o leiaf un plentyn neu berson ifanc, efallai y byddwch yn gymwys i gael Credyd Treth Plant. Ni fydd Credyd Treth Plant yn effeithio ar eich hawl i gael Lwfans Gofal Plant.

Os ydych yn gweithio ond ar incwm isel, efallai eich bod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith. Yn aml, gallwch gael y ddau fath o gredyd treth. Mae'r Credyd Treth Gwaith yn cynnwys elfen gofal plant, sydd ar hyn o bryd yn talu 70% o gostau gofal plant cofrestredig neu gymeradwy. Fel rheol, ni fydd gan fyfyrwyr Addysg Uwch, gan gynnwys Myfyrwyr y GIG, yr hawl i hawlio Credyd Treth Gwaith eu hunain heblaw eu bod yn gweithio 16 awr neu ragor yr wythnos.

Os ydych chi, eich cymar, eich partner sifil neu'ch partner yn cael elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith, Credyd Cynhwysol neu ofal plant di-dreth gan Gyllid a Thollau EF, ni fyddwch yn gymwys i gael Lwfans Gofal Plant GIG Cymru. Os yw'r hysbysiad cyfredol ar gyfer eich dyfarniad yn dweud eich bod yn cael elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith a'ch bod yn penderfynu eich bod am gael arian gan y GIG, bydd angen ichi gysylltu â HMRC i ofyn am hysbysiad wedi'i ddiweddaru sy'n cadarnhau nad oes gennych gostau gofal plant sy'n eich gwneud yn gymwys rhagor.

Mae rhagor o wybodaeth am Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith ar gael ar www.gov.uk/browse/benefits/tax-credits neu drwy ffonio'r llinell gymorth credydau treth yn uniongyrchol ar **0345 300 3900**.

**Nodyn 3:**

**Ar hyn o bryd nid yw GIG Cymru yn ariannu defnydd o Nani/Nani Breifat**

Yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru, rhaid bod y darparwr wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru neu Ofsted fel gwarchodwr plant/gwasanaeth gwarchod plant. Caiff nanis eu hystyried yn ofalwyr plant.
Mae nanis "cymeradwy" yn wahanol i "wasanaethau cofrestredig" ac ni chânt eu rheoleiddio/harolygu yn yr un ffordd, felly ni ellir eu defnyddio fel darparwr.

Rhaid i chi ddefnyddio gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd sydd wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal Cymru o dan ran o Ddeddf Plant 1989 (b). Yn Lloegr, mae gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd wedi'u cofrestru gan y Swyddfa Safonau mewn Addysg (OFSTED), neu mae'n rhaid ichi ddefnyddio darparwr sydd wedi'i gymeradwyo gan sefydliad sydd wedi'i achredu'n benodol.

Ni ddylech ond nodi manylion y plentyn/plant fydd yn derbyn gofal plant cofrestredig neu gymeradwy. Fodd bynnag, **ni ellir** hawlio Lwfans Gofal Plant:

- Yw'r darparwr gofal plant yn **berthynas uniongyrchol*** i'r plentyn/plant dan sylw, a bod y canlynol yn berthnasol:
- Mae'n gofalu am y plentyn/plant yng nghartref y plentyn;
- Darparu gofal i ffwrdd o gartref y plentyn, ond mae'r gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer y plentyn/plant rydych yn hawlio Lwfans Gofal Plant ar ei gyfer.
- ***Mae perthynas uniongyrchol** yn golygu rhiant, nain neu daid, modryb neu ewythr, brawd neu chwaer, neu lys-riant y plentyn/plant. Nid yw perthynas o reidrwydd yn berthynas 'gwaed'. Os oes gennych bartner, mae hyn hefyd yn cynnwys ei berthnasau/pherthnasau.
- Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n arolygu darparwyr gofal plant cofrestredig (neu OFSTED yn Lloegr), ac mae'n rhan o Lywodraeth Cymru. Bydd gan ddarparwyr gofal plant cofrestredig rif cofrestru os ydynt wedi'u cofrestru gyda'r naill awdurdod. Bydd eich Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn cadarnhau a yw eich darparwr wedi'i gofrestru. Mae gofal plant cofrestredig yn cynnwys gwarchodwyr plant cofrestredig, meithrinfeydd, grwpiau chwarae, crèche, cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau a darpariaeth chwarae Mynediad Agored. Mae'r mathau hyn o ofal plant fel rheol i blant o dan wyth oed, ond bydd plant wyth oed a hŷn sy'n mynychu cynlluniau sy'n darparu ar gyfer plant o dan wyth hefyd yn gymwys ar gyfer y lwfans oherwydd eu bod yn mynychu gofal plant cofrestredig. Gall gofal plant cofrestredig hefyd gynnwys gofal plant a ddarperir gan Awdurdod Lleol neu gan rai ysgolion ar dir yr ysgol lle bydd plant yn cael gofal yn absenoldeb eu rhieni y tu allan i oriau ysgol.
- Mae gofal plant cymeradwy yn ofal plant sydd wedi'i gymeradwyo gan sefydliadau sydd wedi'u hachredu'n benodol.
  Cynllun Sicrhau Ansawdd (SA) Mae'r darparwr gofal plant yn gofalu am un neu fwy o blant rhwng 8 a 14 blwydd oed (16 mlwydd oed ac iau os oes gan y plentyn anghenion arbennig cofrestredig), ac yn cael ei dalu am fwy na dwy awr y dydd. Rhoddir cadarnhad ysgrifenedig o'r gymeradwyaeth i ddarparwr gofal plant sy'n cael cymeradwyaeth gan Gynllun SA sefydliad achrededig. Rhoddir y gymeradwyaeth am gyfnod penodedig (dwy flynedd ar y mwyaf) a rhoddir cyfeirnod i'r darparwr gofal plant. Ar hyn o bryd, yr unig gynlluniau perthnasol a ddefnyddir yng Nghymru yw'r cynllun 'Anelu'n Uchel' ar gyfer clybiau y tu allan i'r ysgol a'r cynllun 'Ansawdd Chwarae' i leoliadau chwarae. I gael rhagor o wybodaeth am 'Anelu'n Uchel' cysylltwch â Chlybiau Plant Cymru. Ffoniwch 029 2074 1000. I gael rhagor o wybodaeth am 'Ansawdd Chwarae' cysylltwch â Chwarae Cymru. Ffoniwch 029 2048 6050.

## Nodyn 4:

Mae'r Lwfans Gofal Plant yn cael ei roi ar sail prawf modd i bob myfyriwr, yn yr un ffordd ag y rhoddir y Lwfans Dibynyddion. Bydd faint y byddwch yn ei dderbyn yn dibynnu ar yr incwm sydd ar gael i chi a'ch teulu. Bydd Lwfans Gofal Plant GIG Cymru yn talu hyd at 85% o'ch costau gofal plant cofrestredig neu gymeradwy gwirioneddol hyd at **fwyafswm net o £128.78 yr wythnos ar gyfer un plentyn a £209.95 yr wythnos ar gyfer dau blentyn neu ragor.** Ni chodir treth ar unrhyw swm a gaiff ei ddyfarnu ichi.

Bydd y Lwfans Gofal Plant yn cael ei gyfrifo ar gyfer pawb yn unigol, a bydd y swm a ddyfernir yn dibynnu ar eich amgylchiadau chi a'r incwm sydd ar gael i chi a'ch teulu. Bydd eich hawl i Lwfans Gofal Plant GIG Cymru yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarperir gennych ar eich cais am Fwrsariaeth GIG Cymru.

Gellir hawlio'r lwfans gofal plant am hyd at nifer yr wythnosau rydych chi'n mynychu'r cwrs.

Fel arfer telir Lwfans Gofal Plant ynghyd â'ch taliad Bwrsariaeth GIG Cymru. Rhaid i chi nodi enw pob plentyn a'ch costau gofal plant cyfartalog wythnosol (ar ôl didynnu grantiau eraill ar gyfer gofal plant), **ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn unig.** Gall costau gofal plant amrywio'n sylweddol, yn dibynnu ar y math o ofal plant, oedran eich plentyn a nifer yr oriau sydd eu hangen arnoch, er enghraifft:

- **Gofal Plant/Gwarchodwr Plant Diwrnod Llawn**
- **Gofal y Tu allan i'r Ysgol**
- **Gofal dydd sesiynol/Clwb Gwyliau.** Os bydd angen help arnoch gyda chostau gofal plant yn ystod gwyliau ysgol yn unig, dylech nodi nifer yr wythnosau y mae angen gofal plant ar eu cyfer a'r gost wythnosol.

## Nodyn 5:

Bydd gan bob plentyn tair a phedair oed yr hawl i gael lle mewn Addysg Blynyddoedd Cynnar rhan-amser am ddim. Mae hyn yn berthnasol nes iddynt gyrraedd oedran ysgol gorfodol (y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bump oed). Yng Nghymru, dylid darparu'r lle am o leiaf ddeg awr yr wythnos. Nid oes isafswm i'r nifer o wythnosau mewn blwyddyn y dylid darparu'r sesiynau. Er bod y gwasanaeth hwn am ddim mae'n bosibl y codir ffioedd arnoch am unrhyw wasanaethau y tu hwnt i'r hawl sylfaenol.

Gellir darparu addysg feithrin am ddim mewn meithrinfeydd, cylchoedd chwarae, grwpiau cyn ysgol, meithrinfeydd dydd preifat neu gyda gwarchodwr. Fodd bynnag, ni fydd pob meithrinfa, ysgol neu gylch chwarae'n cymryd rhan yn y cynllun. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag a yw'ch plentyn yn gymwys i gael lle am ddim mewn Addysg Blynyddoedd Cynnar drwy eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol.

Os ydych yn cael Addysg Blynyddoedd Cynnar am Ddim i'ch plentyn neu'ch plant, **ni allwch** gael Lwfans Gofal Plant GIG Cymru ar gyfer y cyfnodau neu'r sesiynau gofal plant hynny y mae Addysg Blynyddoedd Cynnar Am Ddim yn berthnasol iddynt. Serch hynny, gallwch hawlio am oriau ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y sesiynau am ddim, er enghraifft:

Os ydych yn talu cyfanswm o £100 am ofal plant yr wythnos, ond bod y Cynllun Addysg Blynyddoedd Cynnar yn talu £30 o'r swm hwn, ni ddylech ond datgan y £70 yr wythnos sy'n weddill ar eich cais am help gyda'ch costau gofal plant a hawlio'r swm hwnnw.

Efallai y bydd rhai darparwyr Addysg Blynyddoedd Cynnar yn gofyn ichi dalu am yr Addysg Blynyddoedd Cynnar am ddim a ddarperir ar gyfer eich plentyn, a fydd yn cael ei ad-dalu ichi'n ddiweddarach. Os ydych yn disgwyl ad-daliad ar gyfer eich gofal plant o ffynhonnell arall, nodwch hyn yn eich cais am help gyda'ch costau gofal plant, **ond peidiwch â chynnwys y swm hwn yn eich hawliad.**

Sylwch os ydych chi'n derbyn unrhyw gymorth arall gyda chostau gofal plant, bydd angen datgan hyn er mwyn i ni benderfynu a oes angen i ni ei gynnwys yn yr asesiad. Mae rhai cyflogwyr yn ariannu gofal plant drwy'r cyflog a ddangosir ar y slip cyflog, byddai angen datgan hyn.

**Ni fydd yr wybodaeth a'r canllawiau uchod o reidrwydd yn trafod popeth sy'n berthnasol i bob unigolyn. Os oes angen gwybodaeth arnoch nad yw wedi'i chynnwys, cysylltwch â Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr drwy e-bost ar abm.sas@wales.nhs.uk**